


RHWYDWAITH SGILIAU ADEILADU

# Anghenion sgiliau adeiladu



**Cymru**

Rhagolwg pum mlynedd

2023-2027



# CYMRU

Bydd swm y gwaith adeiladu yng Nghymru yn tyfu yn ôl cyfradd gyfartalog flynyddol o 1.1% yng Nghymru, sydd ychydig yn is na rhagolygon y Deyrnas Unedig o 1.5%.

↑ **1.1%**

Tai preifat ynghyd â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yw'r prif sectorau ar gyfer twf yn y dyfodol.


↑ **Tai preifat newydd**  
**Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw**

Y galwedigaethau sydd â'r lefelau gofynion recriwtio ychwanegol cryfaf:

↑ **Bricwyr** (420 y flwyddyn)  
**Crefftau trydanol** (380 y flwyddyn)  
**Towyr** (200 y flwyddyn)

Mae prosiectau mawr yng Nghymru yn cynnwys:

⊕ **Adfywio Abertawe, sy'n** (£1 biliwn)  
**Rhan Dowlais Top i Hirwaun**  
**o'r A465, sy'n** (£500 miliwn)  
**Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer**  
**ddatgarboneiddio tai cymdeithasol**  
**hyd at 2024/25** (£580 miliwn)



Ffeithiau a ffigurau allweddol

2022

2023

2024

2025

2026

2027

2028

2029

Mae cyfradd y gofyniad recriwtio blynyddol yng Nghymru, sef 1.6% y flwyddyn, ychydig yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, sef 1.7% ac mae'n golygu y bydd angen recriwtio 9,100 o weithwyr ychwanegol rhwng 2023 a 2027.



# Cefndir macroeconomaidd y Deyrnas Unedig

Ar ôl adlamu'n ôl yn 2021, gyda 7.5% o gynnydd blynyddol mewn cynnyrch domestig gros (GDP), arafodd twf economaidd y Deyrnas Unedig yn hanner cyntaf y flwyddyn 2022, cyn gostwng -0.2% yn Chwarter 3. Mae'r data misol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd yn dangos bod y Deyrnas Unedig yn wynebu dirwasgiad erbyn diwedd 2022, pan fydd dau chwarter olynol o ostyngiadau wedi bod mewn cynnyrch domestig gros, fel y rhagwelwyd.

Cafodd yr heriau economaidd eu hamlygu gan GDP misol ddiwedd mis Medi 2022, sef 0.2% yn is na'r lefel cyn y pandemig (Chwefror 2020), ac mewn termau real, y Deyrnas Unedig yw'r unig economi G7 lle mae diffyg yn bodoli o'i gymharu â'r lefel cyn y pandemig. Mae Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) ScottishPower Global/CIPS yn dangos bod gweithgarwch busnes wedi gostwng am dri mis yn olynol wrth i fynegai cyfansawdd y Deyrnas Unedig ostwng i 47.2 ym mis Hydref o 49.1 ym mis Medi a 49.6 ym mis Awst, gyda darlleniad o lai na 50 yn dangos gostyngiad. Mae'r pwysau chwyddiant ar gyllidebau aelwydydd yn dal i godi chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a oedd ar ei uchaf ers 41 o flynyddoedd ar 11.1% am y flwyddyn ym mis Hydref 2022. Disgwylir i chwyddiant aros yn uchel ymhell i hanner cyntaf 2023, ac mae mynd i'r afael â hyn, gan gadw cynnydd mewn morgeisi i lawr, yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, fel y nodir yn Natganiad yr Hydref 2022, mae hyn yn gofyn am benderfyniadau anodd i fynd i'r afael â dyled a diffyg y Llywodraeth drwy gyfuniad o godiadau mewn treth a rheoli gwariant y sector cyhoeddus.

Barn gyffredinol y rhagwelwyr annibynnol, Banc Lloegr, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Changhellor y Deyrnas Unedig wrth gyflawni Datganiad yr Hydref yn y senedd, yw y bydd y Deyrnas Unedig yn wynebu cyfnod o ddirwasgiad

gyda'r cynnyrch domestig gros yn gostwng drwy 2023 ac o bosibl i 2024, cyn i'r economi ddechrau codi. Fodd bynnag, yr awgrym yw y bydd yn ddirwasgiad mwy bas o'i gymharu â'r gostyngiadau diweddar a welwyd yn ystod 2020 a 2008.

Er bod amodau economaidd y Deyrnas Unedig yn 2022 yn heriol, roedd yr allbwn adeiladu yn dal yn well na'r disgwyl. Pan ostyngodd cynnyrch domestig gros -0.2% yn Chwarter 3, cynyddodd yr allbwn adeiladu 0.6%, ac mae ar y trywydd iawn i ddangos cynnydd blynyddol o dros 4% erbyn diwedd 2022, gyda sectorau tai a thrwsio a chynnal a chadw newydd yn gyfranwyr allweddol. Fodd bynnag, mae twf wedi cael ei sbarduno fwyfwy gan yr ôl-groniad o waith wrth i archebion newydd leihau, ac erbyn hyn maent ar eu gwannaf ers mis Mehefin 2020.

Mae'n annhebygol y bydd allbwn adeiladu'n parhau i ragori ar yr economi, a dyna pam rydym yn disgwyl gostyngiad mewn allbwn yn ystod 2023 gyda phethau'n gwella yn 2024. Mae disgwyl i'r sectorau masnachol, seilwaith a diwydiannol ymdopi ychydig yn well na thai newydd neu atgyweirio a chynnal a chadw tai. Mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw tai yn debygol o gael ei wasgu wrth i aelwydydd ailflaenoriaethu eu gwariant, ac mae arwyddion bod y farchnad dai yn arafu gyda llai o ymholiadau gan brynwyr newydd a llai o forgeisi'n cael eu cymeradwyo.

Rydym yn dal i weld y diwydiant adeiladu'n wynebu her hirdymor o ran recriwtio gweithwyr. Roedd lefelau swyddi gwag yn dal yn uchel drwy gydol 2022, mae cyfraddau diweithdra yn isel, mae anweithgarwch oherwydd salwch yn cynyddu, a bydd y diwydiant adeiladu'n cystadlu yn erbyn diwydiannau eraill i ddenu a chadw'r gweithwyr sydd eu hangen arno.

Er y bydd y pum mlynedd nesaf yn arwain at gyfnod o ddirwasgiad wedi ei ddilyn gan dwf araf, bydd diwydiant adeiladu'r Deyrnas Unedig yn dal i gyfrif am o leiaf 6% o Gynnyrch Domestig Gros y Deyrnas Unedig, gyda gwerth allbwn blynyddol o dros £170 biliwn a gweithlu o dros 2.6 miliwn. Bydd recriwtio a datblygu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol yn helpu i sicrhau bod y diwydiant yn gallu cyfrannu at gyfleoedd twf fel adeiladu nifer y cartrefi sydd eu hangen ar y wlad, y seilwaith ar gyfer ynni a thrafnidiaeth, ac ôl-osod yr amgylchedd adeiledig i gyrraedd targedau sero net.

**Y DU YW'R UNIG  
ECONOMI G7 LLE MAE  
YNA DDIFFYG YN  
BODOLI YN BERTHNASOL  
AT EI LEFEL RHAG-  
BANDEMAIDD**

# Strwythur

Mae gan y diwydiant adeiladu yng Nghymru rai gwahaniaethau sylweddol i strwythur y DU.


Mae gan y diwydiant adeiladu yng Nghymru 8,055 o fusnesau gyda mwy nag un gweithiwr, sef 14% o'r holl gyflogwyr yng Nghymru. Yn 2022, amcangyfrifir bod gan y diwydiant gyfanswm allbwn o bron i £5.7 biliwn, sydd wedi ei strwythuro fel y dangosir ar y siart. Mae gan Gymru rai gwahaniaethau amlwg yn y sector i

strwythur cyffredinol y Deyrnas Unedig, gyda'r sector nad yw'n dai i'r cyhoedd yn fwy na dwbl lefel gymharol y Deyrnas Unedig. Mae gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ym maes tai a gwaith adeiladu cyffredinol gyda'i gilydd yn cyfrif am 22% o'r allbwn, a gyda thai preifat yn cyfrif am 19%, y sectorau hyn yw'r prif feysydd gwaith yng Nghymru.

Yr un sector sy'n dal yn amlwg yn is na strwythur cyfatebol y Deyrnas Unedig yw seilwaith, sef 8% yng Nghymru o'i gymharu â 15% yn y Deyrnas Unedig. Nid oes yr un cryfder buddsoddi mewn pethau fel seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd, ynni a dŵr yng Nghymru o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

## STRWYTHUR Y DIWYDIANT ADEILADU 2022 CYMRU YN ERBYN DU

- Tai cyhoeddus
- Tai preifat
- Isadeiledd
- Sector Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai
- Diwydiannol
- Masnachol
- AACC Tai
- AACC nad yw'n ymwneud â thai



Allbwn AACC Tai

# 22%

# Golwg ar 2022

Cyfanswm allbwn blynyddol 2022

**£5.7 biliwn**

Cyfanswm yr allbwn amcangyfrifedig 2023

**£5.6 biliwn**



Yn 2022, disgwylir i allbwn adeiladu yng Nghymru i dyfu 3.6%, sy'n agos at lefel twf y DU.

# Golwg ar 2022


Gyda gwerth bron i £5.7 biliwn (prisiau 2019-20) mae allbwn 2022 yn dal i fod 11% yn is na'r cyfartaledd rhwng 2016 a 2018, yn bennaf oherwydd gostyngiadau mewn gwaith y sector masnachol a seilwaith yn 2019 a 2020.

Gan edrych ymlaen at 2023, rydym yn rhagweld gostyngiad bach mewn allbwn adeiladu oherwydd y dirwasgiad disgwylidig mae'r Deyrnas Unedig a Chymru yn ei wynebu.

## ALLBWN Y DIWYDIANT ADEILADU 2004 - 2023

Ffynhonnell: ONS  
Cyf: Eglurhad CSN, Adran 4: Nodyn: 1

£m, prisiau cyson 2019



## RHAGOLYGN ALLBWN 2023 - 2027

Yng Nghymru, bydd maint y gwaith yn cynyddu yn ôl cyfradd gyfartalog flynyddol o 1.1%, sydd ychydig yn is na chyfradd y Deyrnas Unedig o 1.5% ac yn ddiwygiad am i lawr o'i gymharu â rhagolwg 2022-2026. Disgwylir i gyfraddau twf hirdymor fod yn well ar gyfer gwaith newydd nag atgyweirio a chynnal a chadw, ac er bod disgwyl i'r rhan fwyaf o sectorau ddangos rhywfaint o dwf, bydd yn fach iawn dros y rhagolygon. Yn gyffredinol, mae'n debyg y bydd 2023 a 2024 yn

flynyddoedd heriol i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, yn enwedig yn achos tai preifat a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw tai. O 2024 ymlaen, mae'r diwydiant yn dychwelyd yn nes at y tueddiadau twf tymor hwy a welwyd wrth i ni symud allan o'r dirwasgiad disgwylidig.

Er mai'r sector diwydiannol sydd â'r gyfradd twf gyfartalog flynyddol uchaf, mae'r niferoedd uwch o waith yn y sector tai preifat, a'r sector atgyweirio a

chynnal a chadw, yn golygu y byddant yn cyfrannu at enillion o ran allbwn. Rydym yn rhagweld y bydd yr allbwn tai preifat yn cynyddu tua £100 miliwn ar draws y rhagolwg, ac yna atgyweirio a chynnal a chadw tai ar tua £80 miliwn.


Cyfradd twf cyfartalog dros Gymru

# 1.1%

# Rhagolwg

## TWF ALLBWN CYFARTALEDD BLYNYDDOL YN ÔL SECTOR CYMRU 2023-2027

Ffynhonnell: Experian  
Cyf: Eglurhad CSN, Adran 4, Nodyn 2



## ALLBWN ADEILADU - CYMRU (£ MILIWN, PRISIAU 2019)

Ffynhonnell: Experian  
Cyf: Eglurhad CSN, Adran 4, Nodyn 2

|  | Rhagolwg     | Rhagolwg (Newid % blynyddol, termau real) |             |             |             |             | Cyfar-<br>taledd<br>blynyddol |
|--|--------------|---|-------------|-------------|-------------|-------------|-------------------------------|
|  | 2022         | 2023                                      | 2024        | 2025        | 2026        | 2027        | 2023-2027                     |
| Tai cyhoeddus                            | 170          | -5.0%                                     | 1.1%        | 2.7%        | 3.0%        | 3.1%        | 1.0%                          |
| Tai preifat                              | 1,080        | -0.8%                                     | 2.7%        | 2.4%        | 2.5%        | 2.6%        | 1.9%                          |
| Seilwaith                                | 451          | 0.0%                                      | 0.3%        | 1.7%        | 0.9%        | 0.8%        | 0.8%                          |
| Sector gyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 699          | -2.8%                                     | 0.6%        | 1.0%        | 1.7%        | 1.9%        | 0.5%                          |
| Diwydiannol                              | 214          | 4.3%                                      | 3.8%        | 1.5%        | 2.2%        | 2.2%        | 2.8%                          |
| Masnachol                                | 583          | 0.9%                                      | 1.9%        | 2.4%        | 2.4%        | 2.3%        | 2.0%                          |
| <b>Gwaith newydd</b>                     | <b>3,198</b> | <b>-0.7%</b>                              | <b>1.8%</b> | <b>1.9%</b> | <b>2.1%</b> | <b>2.2%</b> | <b>1.5%</b>                   |
| AACC Tai                                 | 1,274        | -4.4%                                     | 0.7%        | 0.8%        | 1.5%        | 1.7%        | 0.0%                          |
| AACC nad yw'n ymwneud â thai             | 1,225        | -0.1%                                     | 0.3%        | 2.5%        | 1.9%        | 2.0%        | 1.3%                          |
| <b>Cyfanswm AACC</b>                     | <b>2,499</b> | <b>-2.3%</b>                              | <b>0.5%</b> | <b>1.6%</b> | <b>1.7%</b> | <b>1.9%</b> | <b>0.7%</b>                   |
| <b>Cyfanswm gwaith</b>                   | <b>5,697</b> | <b>-1.4%</b>                              | <b>1.2%</b> | <b>1.8%</b> | <b>1.9%</b> | <b>2.0%</b> | <b>1.1%</b>                   |

Y gyfradd twf gyfartalog flynyddol yw'r gyfradd twf rhwng diwedd 2022 a diwedd 2027, hy, cyfnod o bum mlynedd.




# Gan edrych ar rai o'r prif brosiectau sydd ar y gweill, bydd prosiect adfywio Abertawe sy'n werth £1 biliwn, ynghyd â chynlluniau gwario yng nghyllideb Llywodraeth Cymru o £580 miliwn ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol hyd at 2024/25, yn helpu i sicrhau twf.

Dechreuodd y gwaith ym mis Mai 2022 ar adran £500 miliwn Dowlais Top i Hirwaun o Ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd, a bydd yn rhedeg tan ganol 2025. Bydd y prif waith adeiladu ar y gwelliannau sy'n werth £60 miliwn i'r A40 rhwng Llanddewi Felfre a Chroesffordd Maenoch yn ymestyn at hydref 2023. Mae'r prif waith ar wneud yr A4119 o Goed Elái i Ynysmaerdy yn ffordd ddeuol, sy'n brosiect sy'n werth £15 miliwn, bellach yn mynd rhagddo. Mae canlyniadau adolygiadau Llywodraeth Cymru o'r "Lwybr Coch" a oedwyd ar Lannau Dyfrdwy, sy'n werth £300 miliwn, ffordd osgoi Llandeilo sy'n werth £50 miliwn a'r Drydedd Bont ar draws y Fenai, sy'n werth £135 miliwn, yn dal heb eu cwblhau.

Ym maes adeiladu dibreswyl, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystyried y dewisiadau caffael i adnewyddu ei fframwaith gofal iechyd. Hyd yma, mae 28 o brosiectau wedi cael eu caffael gan sefydliadau'r GIG ers cyflwyno'r fframwaith presennol.

Fel y gwelwyd yn y misoedd diwethaf, mae cwmp Grŵp Jehu yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant, gyda 104 o staff yn cael eu diswyddo, er bod gan y cwmni 15 contract byw ar draws Cymru a de-orllewin Lloegr sy'n werth bron i £100 miliwn.

 Gwelliannau ffyrdd i'r A465

**£500m**

 Prif adeiladu ar yr A40

**£60m**

 Deuoli'r A4119 Coed Ely i Ynysmaerdy

**£15m**

# Rhagolwg o'r gweithlu<sup>3</sup>

Mae lefel isel y twf mewn allbwn yng Nghymru yn golygu nad oes disgwyl i'r gweithlu adeiladu newid llawer dros y pum mlynedd nesaf.

Dyma'r patrwm rydym yn ei weld yng ngwledydd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig, ac mae disgwyl i'r Deyrnas Unedig ddangos cynnydd bach iawn o 0.1% ar gyfer twf cyfartalog y gweithlu dros y pum mlynedd nesaf.

Rhagwelir y bydd y gweithlu adeiladu, sy'n 111,600 o ran nifer ar ddiwedd 2022, yn gostwng ychydig i 111,000 yn 2023 cyn codi'n ôl i 111,500 erbyn 2027. I bob pwrpas, mae'n broffil statig dros y pum mlynedd nesaf, gyda dim ond amrywiad ymylol ar draws y galwedigaethau.

## CYFANSWM GWEITHLU YN ÔL GALWEDIGAETH - CYMRU

|  | Gwirioneddol   | Amcangyfrif    | Rhagolwg       |                |
|--|----------------|----------------|----------------|----------------|
|  | 2021           | 2022           | 2023           | 2027           |
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes                                    | 4,200          | 4,200          | 4,100          | 4,200          |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu   | 1,400          | 1,400          | 1,400          | 1,400          |
| Rheolwyr prosesau adeiladu eraill  | 8,100          | 8,100          | 8,000          | 7,700          |
| Staff proffesiynol nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu, staff technegol, TG, a staff swyddfa eraill | 11,400         | 11,400         | 11,300         | 11,900         |
| Goruchwylwyr crefftiau adeiladu  | 2,000          | 2,100          | 2,000          | 2,000          |
| Crefftiau pren a gosod y tu mewn   | 13,200         | 13,000         | 12,800         | 12,300         |
| Gweithwyr Gosod Brics  | 5,500          | 6,000          | 6,000          | 5,900          |
| Arbenigwyr amlen adeiladu  | 4,100          | 4,300          | 4,300          | 4,400          |
| Peintwyr ac addurnwyr  | 6,100          | 5,900          | 5,800          | 5,600          |
| Plastrwr   | 4,200          | 4,200          | 4,200          | 4,100          |
| Töwr   | 2,100          | 2,000          | 1,900          | 2,100          |
| Gweithwyr Gosod Llawr  | 200            | 200            | 200            | 200            |
| Gwydrwyr   | 800            | 700            | 700            | 700            |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol*   | 3,900          | 3,900          | 3,800          | 3,700          |
| Sgaffaldwyr  | 800            | 800            | 800            | 800            |
| Gweithrediadau Peiriannau  | 1,600          | 1,400          | 1,400          | 1,600          |
| Peirianyddion/ffitwyr peiriannau   | 1,900          | 1,900          | 2,000          | 1,700          |
| Codwyr dur / gwneuthuriad strwythurol  | 1,100          | 1,200          | 1,300          | 1,300          |
| Labrwr*  | 4,400          | 4,600          | 4,600          | 4,700          |
| Crefftiau Trydanol a gosod   | 7,100          | 7,100          | 7,100          | 7,200          |
| Crefftiau Plymio a HVAC  | 8,000          | 8,200          | 7,900          | 8,200          |
| Logisteg   | 800            | 900            | 800            | 900            |
| Gweithrediadau Peirianneg Sifil*   | 1,500          | 1,600          | 1,700          | 1,800          |
| Gweithredwr nad yw'n adeiladu  | 1,700          | 1,700          | 1,800          | 1,800          |
| <b>Cyfanswm (SIC 41-43)</b>  | <b>96,100</b>  | <b>96,700</b>  | <b>96,000</b>  | <b>95,800</b>  |
| Peirianwyr sifil   | 2,600          | 2,800          | 2,900          | 3,000          |
| Gweithwyr proffesiynol adeiladu eraill a staff technegol   | 7,100          | 7,100          | 7,100          | 7,100          |
| Pensaer  | 1,400          | 1,500          | 1,600          | 1,800          |
| Syrfewr  | 3,200          | 3,400          | 3,400          | 3,900          |
| <b>Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)</b>  | <b>110,500</b> | <b>111,600</b> | <b>111,000</b> | <b>111,500</b> |

Ffynhonnell: ONS, CSN, Experian  
Cyf: Eglurhad CSN, Adran 4, Nodyn 5 6

# Gofyniad Recriwtio Blynyddol (ARR)

Er bod lefelau'r gweithlu yn aros yr un fath, mae angen o hyd i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru recriwtio mwy o weithwyr newydd. Mewn blwyddyn arferol, byddai'r diwydiant adeiladu yng Nghymru yn recriwtio rhwng 6,500 a 9,000 o weithwyr, a symudiad arferol pobl i mewn ac allan o'r diwydiant neu drosiant y gweithlu. Wrth edrych ar y galw am recriwtio yn y dyfodol, rydym yn cydnabod y bydd lefel o athreuliad bob amser yn digwydd ac yn ystyried hyn wrth gynhyrchu'r ffigur gofyniad recriwtio blynyddol.

Mae gwerth gofyniad recriwtio blynyddol 1,820 o weithwyr y flwyddyn yng Nghymru yn cynrychioli 1.6% o weithlu 2022, sydd bron yr un fath â chyfradd y Deyrnas Unedig, sef 1.7%. Gyda lefelau allbwn yn gostwng a'r gweithlu yn aros yr un fath, disgwylir y byddai'r gwerth gofyniad recriwtio blynyddol yn lleihau o'i gymharu â rhagolwg 2022-2026. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos y bydd yn rhaid i'r diwydiant gynyddu'r recriwtio er mwyn cynnal ei lefel.

**Mae disgwyl i'r galwedigaethau a ganlyn feddu ar rai o'r gwerthoedd recriwtio ychwanegol cryfaf:**

- Bricwyr (420 y flwyddyn)
- Crefftau trydanol (380 y flwyddyn)
- Towyr (200 y flwyddyn)


## GOFYNIAD RECRIWTIO BLYNYDDOL YN ÔL GALWEDIGAETH - CYMRU

|  | ARR fel % o weithlu 2022 | Gwerth ARR y flwyddyn |
|--|--------------------------|-----------------------|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes                                    | 2.4%                     | 100                   |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu   | -                        | -                     |
| Rheolwyr prosesau adeiladu eraill  | -                        | -                     |
| Staff proffesiynol nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu, staff technegol, TG, a staff swyddfa eraill | -                        | -                     |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu   | -                        | -                     |
| Crefftau pren a gosod y tu mewn  | -                        | -                     |
| Gweithwyr Gosod Brics  | 7.0%                     | 420                   |
| Arbenigwyr amlen adeiladu  | 3.3%                     | 140                   |
| Peintwyr ac addurnwyr  | -                        | -                     |
| Plastrwr   | -                        | -                     |
| Töwr   | 10.1%                    | 200                   |
| Gweithwyr Gosod Llawr  | -                        | -                     |
| Gwydrwyr   | -                        | -                     |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol*   | -                        | -                     |
| Sgaffaldwyr  | -                        | <50                   |
| Gweithrediadau Peiriannau  | -                        | -                     |
| Peiranyddion/ffitwyr peiriannau  | -                        | -                     |
| Codwyr dur / gwneuthuriad strwythurol  | 9.6%                     | 120                   |
| Labrwr*  | -                        | -                     |
| Crefftau Trydanol a gosod  | 5.3%                     | 380                   |
| Crefftau Plymio a HVAC   | -                        | <50                   |
| Logisteg   | 8.2%                     | 70                    |
| Gweithrediadau Peirianneg Sifil*   | 8.9%                     | 140                   |
| Gweithredwr nad yw'n adeiladu  | -                        | -                     |
| <b>Cyfanswm (SIC 41-43)</b>  |                          | <b>1,570</b>          |
| Peirianwyr sifil   | 3.6%                     | 100                   |
| Gweithwyr proffesiynol adeiladu eraill a staff technegol   | -                        | -                     |
| Pensaer  | 9.8%                     | 150                   |
| Syrfewr  | -                        | <50                   |
| <b>Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)</b>  | <b>1.6%</b>              | <b>1,820</b>          |

Ffynhonnell: ONS, CSN, Experian  
Cyf: Eglurhad CSN, Adran 4, Nodyn 5 6

Fodd bynnag, byddai pwysau hefyd ar benseiri, gweithwyr peirianneg sifil a staff logisteg lle mae'r galw'n uchel o'i gymharu â lefel eu gweithlu. Ar gyfer galwedigaethau lle nad oes gwerth gofyniad recriwtio blynyddol ar y bwrdd, yr awgrym yw y bydd lefelau recriwtio diweddar yn gallu diwallu angen yn y dyfodol os byddant yn cael eu cynnal.

Wrth edrych ar y gweithlu a rhagolygon ARR, mae'n bwysig nodi bod Cymru, fel rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, wedi parhau i weld lefel uchel o swyddi gwag yn y maes adeiladu yn 2022, gyda chwmnïau'n cael traferth dod o hyd i weithwyr sydd â sgiliau addas. Mae hyn wedi arwain at gofnodi prinder sgiliau dros amrywiaeth o alwedigaethau, a chyfraddau cyflog yn cynyddu wrth i gwmnïau geisio denu gweithwyr. Er bod arwyddion o ostyngiad mewn swyddi gwag ym maes adeiladu tua diwedd 2022, mae'r lefelau yn dal yn llawer uwch na'r hyn a adroddwyd ar ddechrau 2020. Gan hynny, rydym yn disgwyl y bydd y farchnad lafur yn parhau i fod yn gystadleuol iawn yn y dyfodol agos.



**Gallai cwmnïau adeiladu geisio llenwi swyddi gwag a'r galw recriwtio yn y dyfodol drwy nifer o lwybrau. Gallent:**

Ddenu gweithwyr medrus sydd eisoes yn gweithio mewn mannau eraill yn y diwydiant adeiladu, er bod hyn yn amlwg yn symud gweithwyr presennol o gwmpas yn hytrach na diwallu anghenion cyffredinol y diwydiant

Denu gweithwyr medrus sydd wedi gadael y diwydiant yn ôl i'r byd adeiladu. Byddai hyn naill ai'n golygu'r rhai sydd wedi gadael i weithio mewn diwydiannau eraill neu'r rhai sydd wedi mynd yn ddi-waith/anweithgar


Denu a hyfforddi newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu o blith y rhai sy'n gadael yr ysgol, addysg bellach, neu addysg uwch

Gwella dulliau cadw gweithwyr yn y diwydiant

Edrych ar sut gellir gwella cynhyrchiant.

**SWYDDI AR-LEIN UNIGRYW MISOL - CYMRU**

Ffynhonnell: Lightcast, detholiad o alwedigaethau adeiladu, Cymru



## Mae'r ymateb i brinder sgiliau yn debygol o fod yn gymysgedd o'r dewisiadau hyn. Fodd bynnag, mae heriau ynghlwm.

Mae lefelau cymharol isel o ddiweithdra wedi dylanwadu ar gryfder y farchnad swyddi (3.3%) a chyfran gynyddol o bobl sy'n cael eu hystyried yn economaidd anweithgar. Mae'r newid hwn yn nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar fel pe bai'n canolbwyntio ar ambell categori, gyda chynnydd amlwg yn nifer y bobl dros 50 oed sy'n mynd yn anweithgar ynghyd â chynnydd yn nifer y bobl sydd â salwch tymor hir. Yr effaith net yw bod y gronfa o weithwyr sydd ar gael y mae

pob diwydiant yn awyddus i recriwtio ynddi wedi cael ei gwasgu, gan arwain at fwy o gystadleuaeth.

Fel y nodwyd yn adroddiad *Rethinking Recruitment* y CITB, bydd yn rhaid i gwmnïau adeiladu yng Nghymru, ac ar draws y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, chwilio am ffyrdd newydd o ddenu, recriwtio a datblygu'r gweithwyr sydd eu hangen arnynt yn awr, ac yn y dyfodol, ac mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o'r gronfa amrywiol o bobl sy'n chwilio am waith.

Mae'r tueddiadau ar gyfer hyfforddiant adeiladu yn gadarnhaol. Ar gyfer prentisiaethau, roedd gostyngiad o 18% yn y nifer a ddechreuodd yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19 ac roedd ffigurau 2020/21 yn dal yn isel hefyd. Fodd bynnag, mae cynnydd amlwg wedi bod


yn y nifer sy'n dechrau ar gyfer 2021/22 ac maent ar y trywydd iawn i fod yn uwch na lefelau 2018/19.

Yn achos dysgwyr a gafodd gymhwyster adeiladu yng Nghymru, roedd gostyngiad o 30% yn nifer y tystysgrifau cymwysterau a gyhoeddwyd yn 2019/20, sydd wedi codi'n ôl yn 2020/21.

Mae'r naill siart a'r llall yn cyfeirio at ddarlun tebyg o'r tueddiadau hyfforddi sylfaenol yng Nghymru, gyda'r gostyngiad yn y nifer yn gwella yn 2019/20 ar adeg pan mae galw cynyddol am weithwyr. Mae hyn yn dangos bod hyfforddiant adeiladu yn mynd yn ôl i'r lefelau blaenorol, er bod gwaith o hyd i gynyddu hyn er mwyn diwallu'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.


### DECHRAU PRENTISIAETHAU FESUL CHWARTER GRONNUS YNG NGHYMURU, AR GYFER Y SECTOR ADEILADU 2018/19 - 2021/22, CH3

Ffynhonnell: Stats Cymru



### ADEILADU, CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG, GWEITHGAREDDAU DYSGU MEWN ADDYSG BELLACH, 2016/17 - 2020/21

Ffynhonnell: Stats Cymru



# Cymorth CITB i'r diwydiant adeiladu ynf Nghymru

Bydd CITB Cymru yn parhau i gynorthwyo'r diwydiant drwy amrywiol fentrau yn 2022, fel rhagflas a chyfleoedd hyfforddi ar y safle drwy 'Gweld eich Safle,' 'Rhoi Cynnig ar Grefft' a hyfforddeiaethau adeiladu penodol newydd i gael profiad o weithio ym maes adeiladu.

Bydd hyn yn cynnwys newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant, ac rydym wedi datblygu tair canolfan ar y safle ledled Cymru i sicrhau bod dysgwyr yn barod i gael gwaith parhaus. Rydym hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i helpu i ddenu gweithlu mwy amrywiol yn y dyfodol i'r maes adeiladu.

Mae CITB yn darparu grantiau i brentisiaid y mae cyflogwyr adeiladu yn ymgymryd â nhw, yn eu cefnogi ac yn eu cynnal i ddiwallu anghenion y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr hyfforddiant, mae CITB Cymru yn arwain Grŵp Cynghori ar Fframwaith Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.

Gan weithio gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a cholegau, byddwn yn sicrhau bod safonau a chymwysterau hyfforddiant yn adlewyrchu newidiadau i arferion gweithio a gofynion y diwydiant. Byddwn yn parhau i ategu'r gwaith o gyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau ar gyfer yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru, fel datblygu'r fframwaith prentisiaeth ar gyfer Trin Adeiladu Diwydiannol a chymwysterau digidol ar gyfer y fframwaith prentisiaeth adeiladu newydd.


Fodd bynnag, mae mynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn marchnad lafur fwy cystadleuol ar adeg pan fydd yr economi mewn dirwasgiad yn galw am

weithredu ar y cyd gan CITB Cymru, cwmnïau adeiladu a'r llywodraeth. Mae cael gweithlu sy'n gymwys ac wedi ei hyfforddi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn y dyfodol yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru y swm o gartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon sydd ei hangen arni, y seilwaith i sicrhau bod yr economi'n ffynnu, ac i fynd i'r afael ag ôl-osod yr amgylchedd adeiledig er mwyn cyrraedd targedau sero net. Fel y nodir yn yr adroddiad, bydd adeiladu yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf yn parhau i gynnal tua 111,000 o weithwyr ac yn cyfrannu gwerth tua £5.7 biliwn o allbwn bob blwyddyn gan ddiwydiant sy'n cynrychioli 14% o'r holl fusnesau sy'n cyflogi pobl yng Nghymru.

Bydd y diwydiant  
adeiladu Cymreig yn  
parhau i gyfrannu tua

# £5.7bn

# Trosolwg o'r DU a dadansoddiad rhanbarthol o fewn Lloegr



# I gael rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu, cysylltwch â:

**Ian Hill**

Rheolwr Mewnwelediad Diwydiant

[Ian.Hill@citb.co.uk](mailto:Ian.Hill@citb.co.uk)

